


Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro

Pen-caer/Pwll Deri

Teithiau Hanner Dydd a Mwy



GRADDFA: 0 400 800 m

PELLTER/HYD: 6.8 milltir (11.0 km) 3 awr 30 munud

CLUDIANT CYHOEDDUS: *Strumble Shuttle 404 (*tymhorol, galw a teithio)

CYMERIAD: Tir arfordirol garw, ymylon clogwyni, caeau a da byw, bryniau


CHWILIWCH AM: Goleudy Pen-caer • golygfeydd o Garn Fawr • Bryngaer Garn Fechan

CYMRWCH OFAL!

- Byddwch yn ofalus ar Lwybr yr Arfordir
- Cadwch at y llwybr ac i ffwrdd o ymylon y clogwyni
- Gwisgwch esgidiau cryfion a dillad cynnes, sy'n dal dŵr
- Cymrwch ofal arbennig mewn tywydd gwyntog a/neu wlyb
- Cadwch lygad barcut ar blant a chwn bob amser
- Cofiwch gau gatiâu

ALLWEDD

- Llwyr Cylch
- Llwyr Arfordir Sir Benfro
Llwyr Cenedlaethol
- - - Llwbrau Cyhoeddus
- P** Maes Parcio
- WC** Toiledau Cyhoeddus
- Safle Bws



Pen-caer/Pwll Deri

Teithiau Hanner Dydd a Mwy

Hyd: 3 awr 30 munud

Pellter: 6.8 milltir (11.0 km)

Cludiant cyhoeddus: *Strumble Shuttle 404 (*tymhorol, galw a teithio).

Cyfeirnod map: SM895415

Diolch i'r pentiroedd dramatig, y golygfeydd gwych a thoreth o fywyd gwylt, dyma daith i'w chofio

Chwiliwch am: Goleudy Pen-caer, golygfeydd o Garn Fawr, Bryngaer Garn Fechan.

Ffurfiwyd y pentir o graig galed, igneaidd ac mae'n ddarn gwylt o dir gyda chlogwyni serth hyd at 140m o uchder mewn manau, felly fe allwch ddisgwyl golygfeydd gwych - maen nhw'n dweud eich bod chi'n gallu gweld lwerddon ar ddiwrnod clir. Chwiliwch am heidiau o lamhidyddion a dolffiniaid trwynbwl yn y bae - maen nhw wedi gweld pysgod yr haul a'r heulforgi yma hefyd nawr ag yn y man. Mae'r traeth, gyda'i gildraethau caregog a'i ogofau, yn lloches i forloi llwyd.

Mae yna amrywiaeth o gynefinoedd o amgylch y pentir, fel gweundir morol, gyda rhedyn, grug a glaswellt garw, ac mae yna degeirianau porffor cynnar a briallu Mair mewn ardaloedd corsiog ar gopa'r clogwyni. Mae'r clogwyni hefyd yn cefnogi cennau morol, clychau'r gog ac eithin ble mae yna gysgod rhag y gwynt. Diolch i'r cyfoeth o flodau mae yna lawer o bili-palaod fel iâr fach y graig a'r pili-pala bach glas yma hefyd. Mae merlod Mynydd Cymreig yn pori'r gweundir - dull traddodiadol o reoli tir a ailgyflwynwyd mewn prosiect partneriaeth rhwng awdurdodau Parc a ffermwyr.

Chwiliwch am y goleudy ar Ynys Michael a gwylwch adar y môr o'r gwylfan o'r Ail Ryfel Byd . Mae'r clogwyni'n gartref i wylanod, cigfrain, y frân goesgoch a'r hebog tramor. Tua'r tir, ar Garn Fawr mae olion un o'r caeru carreg gorau o'r Oes Haearn ym Mhrydain ac mae yna olygfeydd da o'r arfordir yna y man gwyllo naturiol hwn.

Cymeriad: Tir arfordirol garw, ymylon clogwyni, caeau a da byw, bryniau.

